# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Dolywern**

**Leonard Cheshire Disability**
**Dolywern Pontfadog**
**Llangollen**
**LL20 7AF**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

29/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Dolywern

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Leonard Cheshire Disability |
| Lleoedd cofrestredig | 31 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 21 Gorffennaf 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Mae'r cartref yn groesawgar ac mae amgylchedd hamddenol yno. Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd a chânt eu cefnogi i wneud yr hyn sy'n eu gwneud yn hapus ac yn eu cadw'n iach. Mae niferoedd digonol o weithwyr gofal hyfforddedig yn y cartref. Mae ganddynt gydberthnasau da â'r bobl ac maent yn eu hadnabod yn dda. Mae'r cynlluniau personol ar gyfer darparu gofal i'r bobl yn cynnwys disgrifiad da ohonynt a chyfarwyddiadau clir i'r gweithwyr gofal am sut i ddiwallu eu hanghenion. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yno a bod y staff yn "*lovely*".

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu da ar waith ac mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn cefnogi'r rheolwr yn dda, ar y cyd ag uwch-reolwyr darparwr y gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn cwblhau amrywiaeth o archwiliadau rheolaidd o ansawdd y gofal a'r cymorth yn y cartref bob mis a chaiff y canlyniadau eu monitro gan ddarparwr y gwasanaeth. Mae'r prosesau recriwtio yn gadarn ac mae cymorth parhaus effeithiol ar gael i'r staff drwy sesiynau goruchwylio un i un a hyfforddiant. Mae'r darparwr yn sicrhau bod gan y bobl y technolegau cynorthwyol, y cyfarpar arbenigol a'r cyfleusterau sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu canlyniadau dymunol ac i fyw'n gyfforddus yn y cartref.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn ymateb i'w ceisiadau am gymorth mewn modd amserol a'u bod yn gwneud yr hyn y maent yn gofyn iddynt ei wneud. Mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio eu gofal ar y cyd â'u teuluoedd neu eu cynrychiolwyr. Mae cyfarfodydd i breswylwyr, holiaduron ansawdd rheolaidd a system gweithwyr allweddol sy'n galluogi'r bobl i roi adborth ar eu profiadau; mae'r cofnodion yn dangos bod yr adborth hwn yn cael ei werthfawrogi ac y gweithredir arno. Mae opsiynau gwahanol ar gael yn ystod amseroedd bwyd; caiff bwydlen dreigl bedair wythnos ei harddangos yn yr ystafell fwyta ynghyd â'r dewisiadau dyddiol sydd ar gael. Anogir y bobl i ofyn am bryd gwahanol os byddai'n well ganddynt gael rhywbeth arall i'w fwyta. Mae'r cofnodion yn dangos y gall y bobl gael gafael ar wasanaethau eirioli i'w cefnogi i wneud penderfyniadau ac i sicrhau eu lles pennaf os bydd angen.

Caiff y bobl eu cefnogi i wneud pethau sy'n eu gwneud yn hapus ac yn eu cadw'n iach. Darperir ar gyfer deietau arbenigol a dewisiadau deietegol yn y cartref. Gall y bobl gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau o'u dewis bob dydd ac mae'r cofnodion yn dangos bod y bobl yn mwynhau teithiau rheolaidd i ddigwyddiadau, clybiau a chyfarfodydd a gweithgareddau awyr agored yn eu cymuned leol. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn mwynhau mynd allan. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y cartref, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael gofal da gan y staff. Mae'r adborth a gafwyd gan berthnasau yn ategu hyn. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwasanaethau gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael i'r bobl mewn modd amserol ac y caiff cyngor gofal iechyd ei drosglwyddo i'r cynlluniau personol perthnasol a'i ddilyn gan y gweithwyr gofal er mwyn sicrhau bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth yn y cartref. Mae'r darparwr yn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau ar waith i dywys y staff. Cynhelir gwiriadau fetio trylwyr ar gyfer pob aelod o'r staff ac maent yn cael cyfnod sefydlu a hyfforddiant ar bynciau sy'n gysylltiedig ag anghenion cymorth penodol y bobl. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn cwblhau hyfforddiant diweddaru rheolaidd, a hynny wyneb yn wyneb ac ar-lein, a'u bod yn ymgymryd â chyrsiau fel diogelwch tân, iechyd a diogelwch, atal a rheoli heintiau ac amddiffyn oedolion agored i niwed.

Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau bod y bobl yn byw mewn cartref sy'n diwallu eu hanghenion. Mae cyfarpar arbenigol a thechnoleg gynorthwyol ar gael i gefnogi'r bobl â'u hanghenion gofal a chyfathrebu ac i'w helpu i fod mor annibynnol â phosibl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r rheolwr yn defnyddio gwybodaeth o ffynonellau amrywiol i asesu p'un a all y gwasanaeth ddiwallu anghenion gofal a chymorth y bobl cyn iddynt symud i mewn i'r cartref. Unwaith y caiff hyn ei gadarnhau, caiff rhagor o wybodaeth ei chasglu gan y bobl, eu perthnasau, neu eu cynrychiolwyr am hanes eu bywydau, yr hyn yr hoffent ei gyflawni bob dydd ac unrhyw nodau ar gyfer y dyfodol. Mae'r rheolwr a'r staff nyrsio yn asesu unrhyw risgiau posibl i'r bobl ac yn sicrhau bod mesurau ar waith i'w lliniaru cymaint â phosibl. Maent yn llunio cynlluniau personol wedi'u teilwra at yr unigolyn ar gyfer rhoi gofal i'r bobl, sy'n darparu cyfarwyddiadau clir i'r gweithwyr gofal ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud wrth gefnogi'r bobl. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cynnig digon o wybodaeth am y bobl a'u bod yn adlewyrchu'r hyn a ddywedodd y bobl wrthym am eu hanghenion, eu hanes a'u dewisiadau. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddaru pan fo anghenion y bobl yn newid. Caiff unrhyw ddiweddariadau eu cyfleu i'r staff gofal wrth drosglwyddo rhwng shifftiau.

Mae'r bobl yn cael gofal gan staff caredig a chyfeillgar. Roedd yn hawdd mynd at y nyrsys a'r gweithwyr gofal a chawsom groeso ganddynt yn ystod ein harolygiad. Gwelsom fod y gweithwyr gofal a oedd yn cefnogi'r bobl yn amyneddgar, yn ddigynnwrf a'u bod yn barod i wrando ar y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn ymwybodol o'u cynlluniau personol a'u hamcanion. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y bobl y gwnaethom siarad â nhw, a ddywedodd "*Staff are lovely*". Mae'r cofnodion gofal dyddiol yn gyson ac yn dangos bod gofal yn cael ei ddarparu i'r bobl yn unol â'u cynlluniau gofal, ar wahân i'r adegau pan fydd y bobl weithiau'n mynegi dewis amgen. Dywedodd y bobl wrthym fod y staff yn ymateb i'w ceisiadau am gymorth mewn modd amserol. Yn ystod ein hymweliad arolygu, roedd golwg dda ar y bobl. Roedd eu gwallt yn lân ac wedi'i frwsio, roedd eu hewinedd yn lân ac roedd eu dillad wedi'u smwddio.

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau a gweithdrefnau ar waith ar gyfer rheoli'r risg o heintiau. Roedd digon o gyfarpar diogelu personol (PPE) ar gael i'r staff. Anogir ymwelwyr i wirio eu tymheredd pan fyddant yn mewngofrestru wrth y dderbynfa, ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny. Mae staff glanhau yn dod i'r cartref bob dydd a chaiff archwiliadau o'r arferion hylendid yn y cartref eu cynnal yn rheolaidd er mwyn nodi risgiau posibl neu ardaloedd y mae angen eu glanhau'n well.

Mae'r rheolwr yn sicrhau bod arferion priodol ar waith yn y cartref ar gyfer rhoi a rheoli meddyginiaethau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant rheolaidd ar bob agwedd ar y broses o roi meddyginiaeth, gan gynnwys rhoi meddyginiaeth drwy lwybrau arbenigol. Mae'r rheolwr yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n codi o archwiliadau mewnol ac allanol mewn perthynas â rhoi meddyginiaeth mewn modd amserol.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref wedi'i leoli ar diroedd a gaiff eu cynnal a'u cadw'n dda sy'n hygyrch i'r bobl o'r ardaloedd cymunedol ac o lawer o'r ystafelloedd gwely. Gwelsom fod sawl ardal batio ac ardal eistedd yn yr awyr agored. Mae gwelyau blodau ar lefel uwch a thŷ gwydr y mae'r bobl yn eu defnyddio yn ystod tywydd braf. Mae cynllun yr adeilad ei hun yn helpu'r bobl i symud o gwmpas yn annibynnol fel y dymunant, gyda choridorau a drysau llydan. Mae amgylchedd y cartref yn groesawgar ac yn dawel. Mae'r ardaloedd cymunedol wedi cael eu haddurno'n hyfryd ac mae byrddau lluniau i'w gweld yn y coridorau sy'n dangos y preswylwyr yn mwynhau gweithgareddau ac yn treulio amser gyda'i gilydd. Mae lolfa fawr sy'n cynnwys teledu mawr, cadeiriau cyfforddus a digonedd o le i gadeiriau olwyn hefyd. Defnyddir heulfan lai fel ardal dawelach a gwelsom y ddwy ystafell yn cael eu defnyddio gan y bobl drwy gydol y dydd. Mae byrddau o wahanol faint yn yr ystafell fwyta gyda digon o le i'r rhan fwyaf o'r bobl eistedd o'u hamgylch yn ystod amseroedd bwyta; gwelsom y bobl yn cymdeithasu â'i gilydd dros ginio. Mae byrddau arddangos sy'n dangos y fwydlen ddyddiol; mae un yn dangos yr opsiynau yn Saesneg ac yn cynnwys lluniau, ac mae'r llall yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwelsom arwyddion dwyieithog ym mhob rhan o'r adeilad.

Yn ystod ein hymweliad, gwelsom gymysgedd o ystafelloedd y preswylwyr parhaol a'r ystafelloedd a ddefnyddir ar gyfer arosiadau tymor byr neu arosiadau seibiant. Roedd pob ystafell wedi'i haddurno'n hyfryd, yn gartrefol ac yn cynnwys y dodrefn a'r cyfarpar yr oedd eu hangen ar y bobl. Roedd ystafelloedd gwely'r preswylwyr parhaol wedi cael eu personoli'n helaeth ag ornamentau, lluniau a dodrefn o'u dewis. Dywedodd un unigolyn wrthym ei fod wrth ei fodd â'i ystafell a dywedodd unigolyn arall ei fod yn hoff o'i ystafell. Roedd yr holl gyfleusterau ensuite a'r ystafelloedd ymolchi a rennir yn fawr ac felly roedd digon o le i allu defnyddio unrhyw gyfarpar angenrheidiol yn ddiogel.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gan y bobl y cyfarpar arbenigol sydd ei angen arnynt i gyflawni eu canlyniadau personol, a bod y cyfarpar hwnnw'n cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n dda. Gwelsom y bobl yn defnyddio cymhorthion cyfathrebu a thechnoleg gynorthwyol er mwyn parhau mor annibynnol â phosibl. Mae'r cofnodion yn dangos bod y darparwr yn sicrhau y caiff risgiau yn y cartref eu nodi ac y caiff mesurau amserol eu rhoi ar waith i'w lliniaru. Mae cynlluniau personol ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng ar waith ar gyfer y bobl.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan ddarparwr y gwasanaeth drefniadau llywodraethu a goruchwylio effeithiol ar waith er mwyn sicrhau y caiff y cartref ei redeg yn ddidrafferth. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i dywys y staff ar bob agwedd ar y broses o redeg y cartref o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr yn cwblhau amrywiaeth o archwiliadau misol o'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg o ddydd i ddydd. Caiff canlyniadau'r archwiliadau hyn a'r camau gweithredu sy'n deillio ohonynt eu hanfon yn ganolog at ddarparwr y gwasanaeth fel rhan o'i brosesau ar gyfer goruchwylio ansawdd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd i fonitro'r gwasanaeth ac mae mewn cysylltiad rheolaidd â'r rheolwr, yn bersonol a thrwy aelodau eraill o uwch-dîm rheoli darparwr y gwasanaeth. Mae darparwr y gwasanaeth yn casglu adborth gan y bobl a'u perthnasau am eu profiadau yn y cartref drwy gydol y flwyddyn. Defnyddir yr adborth hwn i lywio gwaith i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth ymhellach. Mae'r adroddiad diweddaraf yn dangos bod yr adborth am y gwasanaeth a geir gan y bobl yn gadarnhaol, a bod camau gweithredu wrthi'n cael eu cymryd mewn ymateb i'w hadborth. Roedd yr adborth gan y staff am weithio yn y cartref hefyd yn gadarnhaol.

Mae'r lefelau staffio yn briodol a chânt eu haddasu gan y tîm rheoli yn dibynnu ar anghenion y bobl sy'n byw yn y cartref. Mae prosesau fetio cadarn ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff ac mae'r rheolwr yn monitro addasrwydd parhaus y staff yn rheolaidd drwy gynnal gwiriadau o'u cofrestriad â rheoleiddwyr a chyrff proffesiynol, yn ogystal â chadarnhau eu bod wedi adnewyddu eu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae aelodau newydd o staff yn ymgymryd â phroses sefydlu drylwyr ac yn cwblhau amrywiaeth o gyrsiau hyfforddiant er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i gefnogi'r bobl yn effeithiol. Mae systemau ar waith er mwyn i'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol fonitro cydymffurfiaeth pob gweithiwr gofal â hyfforddiant. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn cael hyfforddiant diweddaru rheolaidd er mwyn cynnal eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u cymwyseddau. Caiff hyfforddiant ei ddarparu wyneb yn wyneb ac mae rhai cyrsiau hyfforddiant eraill yn cael eu cynnal ar-lein yn llwyr. Mae rhai aelodau o'r staff wedi dechrau ymgymryd â chyrsiau hyfforddiant arbenigol a fydd yn eu galluogi i raeadru'r hyfforddiant i'w cydweithwyr. Mae'r staff yn cael eu cefnogi drwy sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd â'r rheolwr. Mae'r darparwr yn annog y staff gofal, teuluoedd a'r preswylwyr i ddysgu Cymraeg drwy hysbysebu cyrsiau lleol ar yr hysbysfyrddau sydd wedi'u lleoli ym mhob rhan o'r cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 12/03/2024